

Penallta House,
Tredomen Park,
Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG

Ty Penallta,
Parc Tredomen,
Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG



www.caerphilly.gov.uk
www.caerffili.gov.uk

Am unrhyw ymholiad yn ymwneud â'r agenda hwn cysylltwch â Julie Lloyd
(Rhif Ffôn: 01443 864245 E-bost: barrerm@caerphilly.gov.uk)

Dyddiad: Dydd Gwener, 15 Gorffennaf 2022

I bwy bynnag a fynno wybod,

Cynhelir cyfarfod aml-leoliad o'r **Pwyllgor Craffu Partneriaethau** yn Nhŷ Penallta, a thrwy Microsoft Teams ar **Dydd Iau, 21ain Gorffennaf, 2022** am **5.30 pm** i ystyried materion a gynhwysir yn yr agenda canlynol. Gall cynghorwyr ac aelodau'r cyhoedd sy'n dymuno siarad ar unrhyw eitem wneud hynny drwy wneud cais i'r Cadeirydd. Mae hefyd croeso i chi ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, mae angen o leiaf 3 diwrnod gwaith o rybudd os byddwch chi'n dymuno gwneud y naill neu'r llall. Bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu ar gais.

Gall aelodau'r Cyhoedd neu'r Wasg fynychu'n bersonol yn Nhŷ Penallta neu gallant weld y cyfarfod yn fyw drwy'r ddolen ganlynol: live via the following link: <https://civico.net/caerphilly>

Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ffrydio'n fyw a bydd recordiad ar gael i'w weld drwy wefan y Cyngor, ac eithrio trafodaethau sy'n ymwneud ag eitemau cyfrinachol neu eithriedig. Felly, bydd delweddau/sain yr unigolion sy'n siarad ar gael yn gyhoeddus i bawb drwy wefan y Cyngor: www.caerffili.gov.uk

Yr eiddoch yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Christina Harrhy'.

Christina Harrhy
PRIF WEITHREDWR

A G E N D A

Tudalennau

- 1 I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb

A greener place Man gwyrddach



2 Datganiadau o Ddiddordeb.

Atgoffi'r Cyngorwyr a Swyddogion o'u cyfrifoldeb personol i ddatgan unrhyw fuddiannau personol a/neu niweidiol mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes ar yr agenda hwn yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a'r Cod Ymddygiad ar gyfer Cyngorwyr a Swyddogion.

I gymeradwyo a llofnodi'r cofnodion canlynol:-

- 3 Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2022. 1 - 8
- 4 Rhaglen Waith Ymlaen y Pwyllgor Craffu Partneriaethau. 9 - 16

I dderbyn ac ystyried yr adroddiadau Craffu canlynol:-

- 5 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent - Diweddariad ar Ddadansoddi Ymatebion 17 - 80
- 6 Twf Swyddi a Chymorth Cyflogadwyedd (Cyflwyniad)
- 7 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerffili - Adroddiad Blynyddol 2021-2022 81 - 126
- 8 Diweddariad ar Gynnydd - Cynllun Llesiant 2018-2023 "Y Gaerffili a Garem" (Hydref 2021 i Ebrill 2022) 127 - 222

Cylchrediad:

Cyngorwyr M.A. Adams, Mrs E.M. Aldworth, C.J. Cuss, G. Enright, D. Ingram-Jones, G. Johnston (Cadeirydd), C.P. Mann, B. Miles (Is Gadeirydd), A. McConnell, D.W.R. Preece, J. Reed, J. Taylor, C. Thomas, A. Whitcombe, L.G. Whittle a C. Wright

A Swyddogion Priodol

SUT FYDDWN YN DEFNYDDIO EICH GWYBODAETH

Bydd yr unigolion hynny sy'n mynychu cyfarfodydd pwyllgor i siarad/roi tystiolaeth yn cael eu henwi yng nghofnodion y cyfarfod hynny, weithiau bydd hyn yn cynnwys eu man gweithio neu fusnes a'r barnau a fynegir. Bydd cofnodion o'r cyfarfod gan gynnwys manylion y siaradwyr ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Cyngor ar www.caerffili.gov.uk. ac eithrio am drafodaethau sy'n ymwneud ag eitemau cyfrinachol neu eithriedig.

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael mynediad at wybodaeth sydd gennym amdanoch a'r hawl i gwyno os ydych yn anhapus gyda'r modd y mae eich gwybodaeth yn cael ei brosesu. Am wybodaeth bellach ar sut rydym yn prosesu eich gwybodaeth a'ch hawliau, ewch i'r Hysbysiad Preifatrwydd Cyfarfodydd Pwyllgor Llawn ar ein gwefan <http://www.caerffili.gov.uk/Pwyllgor/Preifatrwydd> neu cysylltwch â Gwasanaethau Cyfreithiol drwy e-bostio griffd2@caerffili.gov.uk neu ffoniwch 01443 863028.